Lesley Griffiths AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Energy, Planning and Rural Affairs

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Materion Gwledig a'r Amgylchedd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

8 Gorffennaf 2018

Annwy l Mike

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 25 Mehefin a'r copi o adroddiad y Pwyllgor ar lywodraethu amgylcheddol.

Rwy'n croesawu diddordeb y Pwyllgor yn y maes pwysig hwn. Mae gennym stori dda i'w dweud yng Nghymru ynghylch egwyddorion a llywodraethu amgylcheddol sydd wedi dod â chydnabyddiaeth ryngwladol inni. Rwy'n benderfynol o adeiladu ar hyn a sicrhau na fydd Brexit yn effeithio ar y cynnydd a wnaethom hyd yma.

Fel Llywodraeth rydym eisoes wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r bwlch o ran llywodraethu amgylcheddol cyn gynted ag y bydd gennym gyfle i ddeddfu yn ei gylch. Mae'n bwysig inni gymryd yr amser i gydweithio â rhanddeiliaid ac rydym eisoes wedi dechrau gwneud hyn drwy fy Mord Gron ar Brexit. Mae'n bwysig ein bod yn cydweithio â chyrff amgylcheddol ar draws sectorau gan fod gan lawer o sectorau ddiddordeb uniongyrchol yn y maes hwn.

Yn unol â'ch dymuniad, byddwn yn hapus i ymateb i bob un o'r argymhellion yn eich adroddiad erbyn 8 Awst. Yn y cyfamser, mewn ymateb i'ch cais i wybod a oes unrhyw argymhellion a allai godi problemau, byddwn yn cynnig y sylwadau canlynol:

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- Mae'n ymddangos nad yw nifer o argymhellion, argymhelliad chwech yn benodol, yn ystyried yn llawn gynnwys y ddeddfwriaeth a basiwyd eisoes gan y Cynulliad o ran egwyddorion a llywodraethu. Drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd, rydym eisoes wedi cynnwys datblygu cynaliadwy ac egwyddorion amgylcheddol allweddol mewn deddfwriaeth sylfaenol. Yng Nghymru, mae hefyd strwythur gwahanol ar gyfer cyrff cyhoeddus allweddol yn y maes hwn.

- O gofio bod natur y bwlch o ran llywodraethu yng Nghymru yn wahanol iawn i unrhyw ran arall o'r DU, mae'n bwysig nad yw unrhyw gynigion yn groes i'n deddfwriaeth a'n strwythurau llywodraethu presennol nac yn cael effaith niweidiol arnynt.

- Rhaid iddynt gyd-fynd â dull gweithredu blaenllaw Cymru yn ogystal â'i ategu, a hefyd gyd-fynd yn glir â'r fframwaith rhyngwladol.

Rwy'n ddiolchgar am y cyfle i gyfrannu at y cam hwn. Fel y pwysleisiwyd yn eich adroddiad, mae hwn yn fater pwysig ac mae'n hanfodol nad oes rhuthro ar y gwaith o adolygu a mynd i'r afael â'r bwlch o ran llywodraethu gan y bydd gan unrhyw benderfyniadau oblygiadau hirdymor.

Yn gywir

Lesley

Lesley Griffiths AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Energy, Planning and Rural Affairs